# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU, 25.07.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd H. Eifion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Hefyd yn bresennol -** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau), Nicholas Hopkins (Uwch Swyddog Pensiynau), Eurig Williams (Uwch Swyddog Personel) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) (Cyngor Gwynedd); Huw Trainer a Jennifer Ellen (Heddlu Gogledd Cymru), Barry Bracegirdle (GMB), Lynn Patterson (Cynnal), Mandy Evans (Cyngor Tref Abergele), Ceren Williams (Mantell Gwynedd), Clare Williams (IOACC), Marc Jones (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), Peter Brooks (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Nia Jones (Cwmni'r Fran Wen), Katherine Owen (Cyngor Tref Caernarfon) a Paul Potter (Hymans Robertson)

**Ymddiheuriadau -** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, Dafydd Meurig, Peter Read, John P. Roberts

<u>Ymddeoliad</u>
Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y ffaith mai hwn fydd cyfarfod olaf o'r Pwyllgor hwn i Gwyn Parry Williams, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu, gan y bydd yn ymddeol diwedd y mis hwn. Diolchodd iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunodd ymddeoliad hapus iddo.

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD peidio ethol is-gadeirydd am y cyfarfod.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynoddd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2012/13 oedd yn cynnwys:

- adolygiad y flwyddyn

- tueddiadau diweddar
- adroddiad rheoli yn crynhoi prif nodweddion gweinyddu'r cynllun
- sefyllfa actiwaraidd y gronfa
- trefniadau gweinyddol a chadw
- amlinelliad o'r pwerau buddsoddi a'r dull o reoli buddsoddiadau
- crynodeb o'r perfformiad buddsoddi
- datganiad o egwyddorion buddsoddi a strategaeth cyllido
- fframwaith sgiliau a gwybodaeth
- manylion y strwythur rheoli
- ystadegau aelodaeth
- datganiad o gyfrifon 2012/13 a nodiadau i'r cyfrifon
- atodiadau yn cynnwys datganiadau polisi cyfathrebu a llywodraethu, datganiad cydymffurfiad â'r drefn lywodraethol a'r Côd Stiwardiaeth, datganiad o egwyddorion buddsoddi a'r strategaeth cyllido

Rhoddodd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- Gweinyddu Pensiynau. Nododd y bydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 yn gynllun cyfartaledd enillion ac y bydd yn cronni ar gyfradd o 1/49. Cynhaliwyd seminar ar gyfer y cyflogwyr i egluro'r cynllun newydd.
- Cyfeiriodd at Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus drafft sy'n amlinellu'r camau a fydd yn cymryd lle ym Medi 2013.
- Nododd i Gofrestru'n Awtomatig ddod i rym yng Ngorffennaf 2012 gan y Llywodraeth sy'n ei gwneud yn fwy anodd i bobl beidio â bod yn rhan o Gronfa Bensiwn. Golygai hyn lawer o waith i gyflogwyr. Cynhaliwyd seminarau i egluro'r drefn hon.
- Tynnodd sylw at y newidiadau arfaethedig i Bensiwn y Wladwriaeth a olygai o Ebrill 2016 y bydd "contractio allan" yn diflannu gyda'r canlyniad y bydd cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a gweithwyr yn cynyddu i gyfradd "contractio i mewn". Nododd os nad oedd cyflogwyr eisoes yn talu sylw i hyn yn eu cynlluniau tymor canolig 'roedd angen iddynt wneud hynny.
- Tynnodd sylw at y tabl mewn perthynas â monitro perfformiad sy'n manylu ar y ffigurau perfformiad.
- Cyfeiriodd at y Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi gan nodi fod y penderfyniad i fuddsoddi mewn adnoddau is-adeiladwaith bellach yn cael ei roi ar waith. Yn anffodus y llynedd bu'n rhaid terfynu'r mandad gyda un o'r Rheolwyr Buddsoddi, sef Capital International, oherwydd eu bod yn tanberfformio a phenodwyd Veritas Asset Management yn eu lle er mwyn edrych ar ôl cyfran sylweddol o Gronfa Bensiwn Gwynedd.
- Mewn perthynas â cydweithio pensiynau Cymru, nododd bod trysoryddion yr wyth cronfa bensiwn yng Nghymru wedi bod yn gweithio ar brosiect sy'n ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwella trwy gydweithio. Crewyd achos busnes amlinellol sy'n awgrymu efallai y bydd yna i uno'r buddsoddiadau gan allasai arwain at ddychweliadau uwch. Anfonwyd yr achos busnes amlinellol at yr holl gyflogwyr am sylwadau a derbyniwyd ymatebion gan rhai ohonynt, ac yn dilyn o hynny, barn y trysoryddion oedd y dylid creu achos busnes manwl ac fe ymgynghorir arno gyda'r holl gyflogwyr cyn penderfynu os y creeir cronfa o'r fath a'i peidio.
- Tynnodd sylw at dueddiadau'r gronfa sy'n nodi bod gwerth y gronfa yn 2013 yn £1.2m o'i gymharu â £400m yn 2003.
- Cyfeiriodd i'r gronfa danberfformio 1% yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/13 wrth iddo ddychwelyd enillion o 11.7% yn erbyn y meincnod o 12.7%. Dros gyfnod o dair blynedd ers y prisiad diwethaf, fe berfformiodd y gronfa yn well na'r hyn y bu i ni ddefnyddio yn y prisiad gydag enillion o 6.8% y flwyddyn o'i gymharu a rhagdybiaeth yn y prisiad diwethaf o 5.9%. Tynnodd sylw at dabl

cynghrair awdurdodau lleol sy'n rhestru Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol yn ôl eu perfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn ariannol. Allan o'r 85 cronfa bensiwn. 'Roedd perfformiad y Cyngor hwn yn safle 77, sef 90ain canraddol gyda perfformiad y gronfa yn 11.7% o'i gymharu â'r cyfartaledd o 13.8%. Y rhesymau am hyn yw bod Capital International wedi perfformio'n wael a hefyd bod yr holl adnoddau bondiau mewn cytundeb amgen â'r rheolwr er cael dychweliad o gyfradd arian + 2%. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r bondiau wedi perfformio'n gryf ac o ganlyniad mae'r gronfa wedi dioddef. Erbyn hyn mae bondiau wedi gostwng 2.5% yn y 12 mis diwethaf ond mae perfformiad y cwmni wedi cynyddu 3.8% sy'n awgrymu fod y polisi a ddilynwyd yn dechrau talu ar ei ganfed.

- Mewn perthynas â'r prisiad, nododd bod yr actiwari ar hyn o bryd yn cymryd data ac yn prisio'r gronfa. Yn flynyddol ym mis Mawrth derbynnir asesiad gan yr actiwari o'r hyn a ddigwyddodd ers y prisiad diwethaf. Y llynedd cafwyd asesiad bod y gronfa wedi ei ariannu tua 70% ac 'roedd asesiad eleni oddeutu'r un ganran. Nododd, felly y dylem baratoi ar gyfer canlyniad y prisiad nesaf yn Nhachwedd yn waeth na phrisiad 2010. Cynhelir y prisiad ar sail y ffeithiau ar 31 Mawrth. Ers 31 Mawrth 2013 ac erbyn diwedd Mehefin, mae'r ffigur "bond yield" wedi cynyddu o 3% i 3.4% ac oherwydd hynny mae wedi lleihau'r ymrwymiadau ac yn gwella'r gronfa. Nododd y bydd rhagdybiaeth i ganlyniad y prisiad yn un efallai y bydd angen cynyddu cyfraniad y cyflogwr. Cyfeiriodd at y ffaith bod nifer o'r cyflogwyr bychain megis cynghorau tref/cymuned a.y. wedi eu cynnwys yn y categori "cyrff a ganiateir". Edrychir ar gyfer prisiad y flwyddyn hon i ddileu'r categori hwn. Yn ystod Medi / Hydref, bwriedir cysylltu â'r cyrff yn y categori hwn i drafod hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am adroddiad eglur a chynhwysfawr.

Codwyd cwestiynau ar yr adroddiad ac ymatebodd y swyddogion yn briodol iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.50pm.